PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 159 | Rhif 25 | Mehefin 18, 2026 | 50c.

## Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr

## Cyfarchiad gan y Cadeirydd



Annwyl Gyfeillion,

Fel Cadeirydd y Cyfundeb, mae'n bleser mawr gennyf estyn croeso cynnes iawn i bawb i Gyfarfodydd Blynyddol yr Undeb, a gynhelir eleni yng ngwesty'r Towers, Abertawe, rhwng dydd Mercher 24 Mehefin a dydd Gwener 26 Mehefin 2026. Mae'r cyfnod hwn yn gyfle gwerthfawr i ni ddod ynghyd fel eglwysi i addoli, trafod, myfyrio a chynllunio ar gyfer gwaith yr Undeb yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Bydd y rhaglen eleni yn cynnwys cyfuniad cyfoethog o adroddiadau, trafodaethau, cyflwyniadau a gwasanaethau, gyda gwasanaeth cyfieithu Cymraeg–Saesneg ar gael drwy gydol y cyfarfodydd.

Ar y dydd Mercher, byddwn yn dechrau gyda sesiynau busnes yr Undeb, cyn mwynhau te a theisen a chyflwyniad ar hanes a threftadaeth yr ardal. Gyda'r nos, cynhelir cyngerdd arbennig yn y Tabernacl, Treforys, yn dwyn y teitl 'Abertawe: Dinas Noddfa', ac mae croeso cynnes i bawb ymuno am 7.30pm. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Dr Fiona Gannon, arweinydd Capel y Nant ac arweinydd y Pwyllgor Gwaith, am ei gwaith arbennig yn cydlynu a chynllunio'r cyfan oll.

Bydd dydd Iau yn ddiwrnod llawn adroddiadau, trafodaethau ar genhadaeth a gweinidogaeth, a chyfarfod Cymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru gyda darlith ar fywyd a gwaith Eifion Wyn. Yn y nos, cynhelir Oedfa Fawl yng Nghapel y Nant, Clydach, gyda chân, gweddi a phregeth.

Ar y dydd Gwener, byddwn yn dod â'n gwaith i ben gyda sesiwn derfynol, defosiwn, anerchiad y Llywydd a gwasanaeth o ddiolchgarwch a ffarwelio.

Fel Undeb o dros 300 o eglwysi amrywiol, rydym yn dod o gefndiroedd, traddodiadau a chyd-destunau gwahanol – ac eto, wrth ddod ynghyd, rydym yn profi undod, cyfeillgarwch a chydweithio. Dyna ein cryfder, a dyna sut y bwriadwyd iddo fod: amrywiaeth sy'n dod yn un corff, un weledigaeth a gwasanaeth unedig.

Gobeithiaf yn fawr y bydd cynrychiolaeth dda o'n heglwysi ledled ein Hundeb. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle arbennig i feithrin cymuned, i rannu gweledigaeth ac i ddathlu ffydd. Gwnewch bob ymdrech i ymuno o'r eglwysi.

Gyda phob bendith,

**Parchg Rhys Locke**
Cadeirydd y Cyfundeb

## Pabell Cytûn, Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn

Nos Lun 2 Mawrth euthum i gapel Lôn y Felin, Llangefni i gyfarfod trefnu Pabell yr Eglwysi yn Eisteddfod yr Urdd ar Ynys Môn. Aled a Delyth Davies oedd yn ein tywys – dau brofiadol yn y maes. Ymhlith y rhestr hir o ofynion soniwyd am gael posteri i'w harddangos yn y babell. Ar y ffordd adref meddyliais y gallem ymateb i'r cais am boster drwy ofyn i blant yr eglwys fy helpu.










Gan fod Sul yr Eisteddfod yn Sul y Pentecost roedd thema'r poster yn amlwg. Cefais wybod bod y poster i fod yn 1m x 1.5m. Es i chwilio yn y shed am gefndir ond doedd dim byd digon mawr yno, yna ymwelais â chwmni Welcome (cwmni gwneud dodrefn) ar stad Cibyn, Caernarfon. Roedd haelioni'r ferch yn rhagorol gan iddi ofyn sawl darn oeddwn ishe! Cynlluniais y poster a rhoi cyfarwyddyd i'r plant o'r hyn y dymunwn iddynt wneud erbyn dyddiad arbennig. Wedi sawl e-bost a negeseuon, derbyniais eu gwaith yn oedfa bore Sul 17 Mai. Y dasg nesaf oedd gosod y cyfan yn ei le a dyma Heddwen, ein merch ieuengaf, sy'n athrawes ar ynys Môn, yn gofyn ai fi oedd yn mynd i





wneud y gwaith. Er na ddwedodd yr un gair medrwn weld ar ei hwyneb y medrai wneud y gwaith yn well na fi. Roedd ei mam yn cytuno a dyna ddigwyddodd !

Diolch i Owain Bishop, Macsen Robert Tudur a Tomos Owain Tudur am eu hymdrech. Cafodd pawb a ymwelodd â'r babell gyfle i feddwl am gefndir y Pentecost, dydd y Pentecost a ffrwythau'r Ysbryd.

**J. R. Williams**

# Teyrnged i Dewi



*Dyma ail ran y deyrnged draddododd Fiona Ganon i'r Parchg Dewi Myrddin Hughes*

Rhywun oedd wrth ei fodd gyda phobl oedd Dewi – 'people person' go iawn, chwedl y Sais, a doedd hynny byth yn amlycach na phan fyddai yng nghanol ei deulu. Roedd mor falch o bopeth gyflawnodd ei feibion – roedd balchder tawel yn tywynnu ohono wrth sôn am arddangosfeydd ffotograffiaeth Aled, ac rwy'n dal i gofio'r Sul yng Nghapel y Nant pan soniodd, yn wên o glust i glust, am gyhoeddi llyfr gan Ifan, er ei fod yn cyfaddef yr un pryd nad oedd yn deall braidd dim ohono!

Wedi i'r ddau deulu ddod yn un, roedd yn ymfalchïo yn yr un modd yn holl gyflawniadau Elin, Non a Dafydd a'u teuluoedd – does dim syndod eu bod yn ei ddisgrifio fel 'Super Sub' perffaith oedd yn gofalu amdanynt ac yn eu caru'n ddiamod.

Roedd Dewi'n fwy na pharod i ddweud ei fod wedi gwirioni ar ei wyrion, a'u bod yn 'drysorau'. Daeth Llawr y Fesen yn hafan i'r teulu cyfan, a thros gyfnod o 30 mlynedd, bu Dewi ac Annette yn ddau gymar cariadus, yn cynnal ei gilydd a'u teulu, ac yn mwynhau llu o brofiadau amrywiol, oedd yn cynnwys teithio i wahanol fannau, o Gernyw, i Stratford a hyd yn oed i Ghana, lle cawson nhw brofiadau bythgofiadwy.

Hyd at ei wythnosau olaf, byddai Dewi wrth ei fodd yn gwylio gêm neu ffilm gyda'r teulu, ac yn ymhyfrydu yn eu holl weithgareddau. Cwbl nodweddiadol o gymeriad Dewi oedd ei fod, hyd y diwedd, yn troi'r ffocws ar eraill – roedd ymhlith y mwyaf diymhongar o ddynion, ac o ganlyniad, mor hawdd closio ato. Hyd yn oed wrth i'w gorff wanhau roedd yn parhau i godi calon pawb o'i gwmpas. Roedd yn gwbl briodol bod Dewi ac Annette hwythau wedi'u hamgylchynu gan gariad a gofal yn ystod misoedd anodd salwch Dewi, wrth i'r teulu fod yn graig a chynhaliaeth i'r ddau.

Ni ellir talu teyrnged i Dewi heb gyfeirio at ei gyfnod fel Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr, swydd y'i penodwyd iddi yn 1999, a rôl sydd ymhlith y mwyaf heriol. I gyflawni'r rôl honno, roedd arno angen ei holl sgiliau trin pobl, yn enwedig gan fod rhaid iddo yntau fel unigolyn barhau'n niwtral, er mwyn rhoi cyfle i eraill leisio barn, a dim ond cymeriad mor ddiymhongar a doeth â Dewi fyddai wedi llwyddo i wneud hynny ar adeg dyngedfennol y drafodaeth ynghylch uno'r eglwysi.

Ar hyd ei saith mlynedd yn y swydd, sicrhaodd fod pobl yn cael eu grymuso i leisio barn, gan roi gwerth ar brofiadau pawb, ac ni fu neb erioed yn fwy cefnogol i'w gyd-weinidogion a'r eglwysi. Roedd Dewi yn gyfathrebwr dawnus, boed hynny'n y pulpud, mewn pwyllgorau, neu ar lefel un-i-un, ac roedd ei ffordd dawel, bwyllog o ymwneud â phobl yn agor meddyliau'r rhai a ddeuai i gysylltiad ag ef, fel mae'r gymdeithas fywiog a'r cyd-fyw hapus sy'n bodoli yma yn nheulu Capel y Nant yn tystio. Ar un ystyr esiampl yw hon o'r eglwys unedig ddelfrydol ar lawr gwlad, lle nad cefndir y gwahanol unigolion sy'n bwysig, ond yn hytrach eu hawydd i weithio dros eu harglwydd ac esblygu er mwyn gwneud hynny yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Roedd Dewi wrth ei fodd gyda barddoniaeth a dramâu o bob math, a bu'n llwyfannu cynyrchiadau yn ei eglwysi ar hyd y blynyddoedd, gan ei fod yn gweld digwyddiadau cymdeithasol yn rhan allweddol o fywyd yr eglwys. Mae'r atgof yn dal yn fyw iawn yma yng Nghapel y Nant am y pasiant arbennig a luniodd i ddathlu'r 10 mlwyddiant, cyflwyniad oedd yn llawn gwersi hanesyddol gwerthfawr, ond a oedd hefyd yn cynnwys digonedd o gyffyrddiadau llawn hiwmor.

**Fiona Gannon**

*(Ymddiheuriadau mawr na chyhoeddwyd gweddill y deyrnged hon ym mis Ebrill a diolch yn fawr i'r rhai hynny dynnodd ein sylw at ein hamryfusedd. Yn hytrach na chrynhoi'r deyrnged, a fyddai'n golygu colli rhannu gwerthfawr ohoni, penderfynwyd ei rhannu'n dair rhan. Bydd y rhan olaf yn y rhifyn nesaf. Gol.)*

# Angor Grangetown

'Rhyfeddol Ras' yw'r gyfres ddiweddaraf i ni edrych arni yn ystod ein gwasanaethau. Y cariad anhygoel yna mae Iesu yn estyn allan tuag atom ni sydd yn hollol radical; hollol wahanol i bopeth mae'r byd yn ei gynnig.




Cafwyd cwmni'r cenhadwr o Wlad y Basg, Daniel Scott a chafwyd cyflwyniad ganddo am y gwaith wrth iddo sefydlu'r eglwys gyntaf erioed i addoli yn yr iaith Basgeg. Parhawn i weddïo drosto fo a'r gwaith cyffrous a hollbwysig yma.

### Myfyrwyr

Roedd yn hyfryd hefyd ffarwelio gyda rhai o'n myfyrwyr sydd bellach wedi gorffen eu cyrsiau yma yng Nghaerdydd. Byddwn ni'n gweddïo drostyn nhw wrth iddyn nhw ddechrau gwaith, chwilio am waith a pharhau i wasanaethu eu heglwysi lleol ar draws Gymru. Newyddion da hefyd oedd cael cadarnhad gan Undeb yr Annibynwyr bod ein cais wedi'i gymeradwyo am gefnogaeth ariannol tuag at Angor am y tair blynedd nesaf. Diolchwn i bawb sydd wedi rhoi'r cais at ei gilydd er mwyn ei gyflwyno i'r panel. Ac mae'n diolch enfawr i Undeb yr Annibynwyr am eu haelioni a'u gweledigaeth yn ein cefnogi ni a phrosiectau eraill ar hyd a lled Cymru.

### Tros yr haf

Wrth i ni droi ein golwg tuag at yr haf mae ambell ddigwyddiad cyffrous ar y gweill; rydym yng nghanol trefnu Clwb Gwyliau Ysgol Sul yn ystod wythnos gyntaf gwyliau'r haf. Clwb fydd hwn i blant oed cynradd er mwyn dysgu storïau Beiblaidd, gwneud crefft a chwarae gemau. Byddwn yn rhedeg y clwb ar y cyd gydag eglwys Grace Church, Grangetown ond yn sicrhau bod y siaradwyr Cymraeg yn ymuno â ffrwd Gymraeg ar gyfer y stori, caneuon a'r adnod cof. Rydym yn falch o fedru croesawu criw o bobl ifanc sydd wedi bod yn gweithio ar flwyddyn gap ar draws Cymru mewn eglwysi gwahanol, i gynorthwyo gyda'r clwb hefyd.

### Trefniadau misol Angor

- Sul 1af – Angor Acwstig 4pm Bay Church,Grangetown. Cwrdd Gweddi ar Zoom 8pm
- 2il Sul – Angor 4pm Bay Church, Grangetown.
- 3ydd Sul – Y Bwrdd 4pm Bay Church, Grangetown.
- 4ydd Sul – Angor 4pm Bay Church, Grangetown.
- Bore Gwener – Clwb Tots Angor 9:45–11am Y Pafiliwn, Gerddi'r Grange.

Gweddïwn dros ffrindiau a'r gymuned yn Grangetown. Diolch i holl deulu Ebeneser am eich gweddïau a'ch cefnogaeth ddiffuant yn y fenter yma. Ymunwch i weddïo gyda ni y bydd mwy yn ymuno ar daith ffydd.

**Gwilym Jeffs**

Yr Adran
Gydenwadol

18 Mehefin 2026
Rhifyn 277

I ddarllen y cyhoeddiad digidol
*Cenn@d* yn llawn cliciwch isod:
www.cennad.cymru

# Cyfarfod lansio cyfrol newydd

## *Cydymaith i'r Testament Newydd Cymraeg* gan John Tudno Williams


Pnawn Llun, 1 Mehefin, roedd Ystafell y Cyngor, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, yn llawn aelodau o deulu a chyfeillion y Parch. Athro John Tudno Williams ar achlysur lansio'i gyfrol ddiweddaraf, *Cydymaith i'r Testament Newydd Cymraeg*. Mae'n gyfrol arloesol sy'n cynnig cipolwg newydd ar hanes ac egwyddorion cyfieithu'r Testament Newydd i'r Gymraeg. Yn wir, hon yw'r astudiaeth gyntaf yn Gymraeg i gymharu'r testunau Groeg a'u dylanwad ar gyfieithiadau Cymraeg o'r Beibl dros gyfnod o bedair canrif. Mae'n adnodd unigryw i ysgolheigion, diwinyddion ac unrhyw un sy'n ymddiddori yn hanes yr iaith Gymraeg a'r ysgrythurau.



Geraint Evans, Maredudd ap Huw, John Tudno Williams ac Aled Davies



Geraint Evans yn holi John Tudno Williams




Croesawyd pawb i'r digwyddiad gan Dr Maredudd ap Huw o'r Llyfrgell Genedlaethol, a nododd ein bod yn lansio cyfrol oedd yn coroni gyrfa o ysgolheictod diwinyddol eithriadol. Yn dilyn hynny, cafwyd gair gan Aled Davies, Cyfarwyddwr Cyhoeddiadau'r Gair, cyhoeddwyr y gyfrol. Mynegodd yntau ei ddiolch i'r awdur, gan gydnabod ei lafur diflino yn llunio'r *Cydymaith* gwerthfawr hwn. Cyfeiriodd at y cydweithio hwylus â'r Llyfrgell Genedlaethol a gwaith cysodi gofalus Dr Rhys Llwyd ar ran y wasg, cyn cyflwyno copi o'r gyfrol i'r awdur.

Yn ei ymateb, diolchodd yr Athro John Tudno am nawdd Cymrodoriaeth Ann Eilian Owen a Margaret Eilian Owen, drwy law'r Llyfrgell Genedlaethol, i'w alluogi i ymgymryd â'r gwaith. Eglurodd ei fod wedi mynd ati i gymharu cyfieithiad Cymraeg Beibl 1620 â'r Beibl Cymraeg Newydd (1988, wedi'i ddiwygio yn 2004) gan nodi'r gwahaniaethau rhwng y ddau gyfieithiad ar sail y testun Groeg.

Yna, cafwyd cyfle i ddysgu mwy am y gwaith wrth i'r awdur ymateb i ambell gwestiwn gan ei frawd yng nghyfraith, Geraint Evans, a chafwyd sgwrs hwyliog rhwng y ddau.

Mae'r englyn a gyfansoddwyd gan ei fab, Tomos Gwyn, ar gyfer yr achlysur yn crynhoi camp yr Athro John Tudno i'r dim, ac estynnwn ein llongyfarchiadau calonnog iddo:


Gwirio bôn y gair byw – ysgoloriaeth
Hir genhadaeth ydyw;
Ymchwil hynod a chlodwiw,
Gorau dysg ar eiriau Duw.

*Marian B. Hughes*

*Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




**Codi'r Llen 27**

## Ymson Jesebel

Dros y cenedlaethau llefarwyd fy enw'n watwarus a'i ddefnyddio i dynnu pobl i lawr. Cefais fy nisgrifio fel y frenhines wenwynig, y gnawes gyfrwys, y ferch ddrwg a syrthiodd i'w marwolaeth yn y diwedd. Gwn am y cyhuddiadau, ond ydyn nhw'n hollol deg? All bywyd person fel fi gael ei gywasgu i gyd, pob mymryn ohono, i un ymadrodd cas?

Ro'n i'n dywysoges o'r funud y ganwyd fi. Merch i frenin, yn cael ei magu yn atseiniau muriau'r deml ac ynghanol pobl oedd yn ddigon hyderus i beidio ymgrymu i Dduw Israel. Wrth ddod i Samaria i fod yn wraig i Ahab, doedd fy llechen ddim yn lân o bell ffordd. Fe ddes i yno gyda stamp fy mhobl arnaf, fy nuwiau a'u traddodiadau. Yn ôl yr hyn a wyddwn i, roedd y pethau hynny'n dda, yn rhan o'm diwylliant; do'n i ddim am droi fy nghefn ar fy magwraeth. Ofynnodd neb imi ystyried y peth.

Wrth gwrs fy mod yn deall yr hyn a gofnodwyd: fy mod wedi cefnogi proffwydi Baal a gwrthwynebu Elias. Adroddodd rhai fy mod wedi ymlwybro ar hyd ffordd greulon. Efallai fod peth gwirionedd yn hynny. Does dim modd i frenhines fyw ei bywyd mewn palas llawn peryglon heb orfod sefyll yn gadarn. Doedd y glustog ar fy ngorsedd ddim yn esmwytháu dim ar yr anhawster o orfod ymwneud â phobl. Pan fydd dynion yn mynd i ryfel, bydd pobl yn dweud eu bod yn benderfynol. Pan fydd merch yn dangos awdurdod, dywed pawb ei bod yn beryglus.

Oes, mae cysgodion du yn rhan o'm stori. Fedra i ddim gwaredu'r staen a achoswyd gan yr hyn ddigwyddodd rhwng fy ngŵr, Ahab, a Naboth. Roedd Ahab eisiau prynu tir gwinllan Naboth. Gwrthod gwerthu wnaeth Naboth ac fe bwdodd Ahab, yn ôl ei arfer. Dim ond fi allai symud pethau ymlaen, felly ffugiais lythyrau a fyddai'n cyhuddo Naboth o gablu. Fe'i cafwyd yn euog a'i labyddio i farwolaeth. Ac o'm herwydd i, fe gafodd Ahab ei ffordd. Peth perygl yw grym sy'n dallu pobl rhag gweld y gwir.

Eto, dwi wedi holi fy hun droeon pam y cefais enw drwg, o'i gymharu â dynion a wnaeth bethau llawer iawn gwaeth na mi. Roedd un teyrn yn lladd y llall, a theyrnasoedd yn dymchwel oherwydd creulondeb unigolion. Ond fe lynodd yr hyn a wnes i ym meddyliau pobl. Roedd proffwydoliaeth Elias hefyd yn wybyddus i bawb a'i gred yng nghynlluniau ei Dduw.

Collais fy ngŵr, collais fy nheulu. Clywais fod Jehu ar ei ffordd i'm lladd, a gwyddwn fod yn rhaid imi wynebu fy ffawd. Daeth y bore; penderfynais roi colur ar fy wyneb fel bob bore arall. Rhoddais ddigonedd o hufen hefyd dros fy nghorff hyd nes fy mod yn llyfn a glân. Do'n i ddim am guddio yn y cysgodion. Cerddais yn dalsyth at fy ffenestr a syllu'n syth i gannwyll llygaid Marwolaeth. Os oedd e'n dod i'm nôl, ro'n i'n benderfynol o edrych i fyw ei lygaid. Fe'm taflwyd i lawr a'm bwyta'n fyw.

Nid yw fy stori'n hardd, er fy harddwch. Nid yw'r stori'n llon, er mor llawn fy myw. Alla i ddim derbyn y darlun a beintiwyd ohonof ag un haen yn unig o baent. Roeddwn yn amlhaenog, fel pob meidrolyn byw. Felly, bernwch fi a'm casáu, ond byddwch yn ymwybodol hefyd fod cymhlethdod yn rhan o stori pob un person ar y ddaear, siŵr o fod. Oni chytunwch?

**Holi**

- Pam mae rhai cymeriadau Beiblaidd o bosib yn cael eu cofio am eu camweddau yn fwy na'i gilydd?
- Sut mae Jesebel yn ein herio ni i ystyried barn, etifeddiaeth gelwyddog, gwaddol ein gweithred-iadau, a chymhlethdod cymeriad dynol?
- Beth ddywed stori Naboth wrthym am anghyfiawnder a chamgyhuddo? A welwn ni bethau tebyg yn digwydd yn ein cymdeithas ni heddiw?
- Sut gall ymlyniad Jesebel at ei diwylliant ein dysgu ni am ffyddlondeb i'n cred, a ninnau'n byw mewn byd sy'n llawn safbwyntiau amrywiol a seciwlar?
- Sut gallwn ni, unigolion ac eglwysi, warchod ein hunain rhag y demtasiwn i flaenoriaethu llwyddiant, dylanwad ac elw personol ar draul ffyddlondeb ac ufudd-dod i Dduw?

**Gweddi**

Gwyddom dy fod Ti'n gweld i mewn i ddyfnder ein calonnau.
Wrth inni ystyried, myfyrio a thrafod gyda'n gilydd, rho ddoethineb inni adnabod y peryglon sy'n torri ar lyfnder ein bywyd.
Bydd yn gymorth inni ddal ein gafael ar ein hargyhoeddiadau, a gollwng gafael ar ein rhagfarnau hefyd.
Boed inni fod yn union a hynaws, gan wregysu ein hunain â'r gwirionedd.
Amddiffyn ni rhag hunan-dwyll, a gwna ni'n bobl sy'n camu'n gyfiawn ar hyd llwybr cymod a chariad. Amen.

**Siân Meinir**

**Cyhoeddiadau Radio, 21 Mehefin 2026**

**Radio Cymru**

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 21 Mehefin, am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Elwyn Richards

BBC radio cymru S4C

*Oedfa Radio Cymru*

**Sul, 21 Mehefin am 12:00yp**

Oedfa dan arweiniad Delyth Wyn Davies, Chwilog

Colofn Denzil I John



# Cloncan am Grist

Bydd llawer ohonom yng Nghymru wedi arfer â phrotestio'n gyhoeddus, boed o blaid hawliau dynol neu yn erbyn trais neu ryfel. Gallai ein protest fod yn syml ar fater lleol neu'n ymwneud â mater cenedlaethol neu ryngwladol. Eto, ni welwyd trais ym mhrotestiadau Cymdeithas yr Iaith na Chomin Greenham, diolch byth. Ond, yn rhyfedd iawn, gwelsom enghreifftiau diweddar o brotestiadau treisgar ac anwaraidd. Dros yr wythnosau a aeth heibio, bu'r hyn a welsom yn Southampton, Dulyn, Glasgow a Chaeredin, ac yn arbennig yn Belfast, yn ddychrynllyd a gwaradwyddus.

Bu protestiadau erchyll yn Llundain a mannau eraill yn Lloegr, gyda thrais yn magu trais. Nid nad yw Cymru wedi gweld protestiadau tebyg, a hynny'n gymharol ddiweddar yn Llanelli, Abertawe a Chaerdydd, a nodi dim ond tair enghraifft. Pwy all ddirnad y fath ymddygiad, gyda'r heddlu yn darged ymosodiadau, a cheir a thai yn cael eu llosgi? Bu enghreifftiau o fosgiau'n dargedau hefyd, a phrofodd unigolion o bob hil, lliw croen a chefndir niwed difrifol. Gallwn ailadrodd cwestiwn y gân, sef: 'I ba beth mae'r byd yn dod?'

Mae'n rhy hawdd beio pobl sy'n herio'r drefn ac yn hyrwyddo terfysgwyr llawnamser, neu fod eithafiaeth wleidyddol yn porthi agweddau hiliol, gan annog casineb a thor cyfraith. Cyfeirir at Stephen Christopher Yaxley-Lennon, sy'n fwy adnabyddus fel Tommy Robinson, arweinydd yr EDL (English Defence League), fel un o'r bobl sy'n mwynhau ysgogi'r fath weithgaredd, a bydd eraill yn cynnwys arweinwyr Plaid Reform fel matsys peryglus.

Eto, mae rhywrai mewn llu o wledydd yn gweld trais cymdeithasol fel arf gwleidyddol. Prin fod Robinson a'i debyg yn gyfrifol am yr holl ymosodiadau ym mhob gwlad! Dywedir bod Robinson yn arddel y ffydd Gristnogol; defnyddir y term 'born-again Christian' wrth sôn amdano. Ond prin y gall unrhyw un fod yn derfysgwr mileinig ac arddel Efengyl heddwch a thrugaredd yr un pryd.

Bydd cymdeithasegwyr a seicolegwyr yn siŵr o gynnig dadansoddiadau hir a manwl o'r ffenomenau hyn. Ac ymhen ugain mlynedd bydd haneswyr yn cynnig dadansoddiad gwrthrychol o'r nodweddion a welwn yn tanio o'n cwmpas. Mae'n siŵr y bydd gwleidyddiaeth gyfredol America yn elfen yn y dadansoddiad.

Yn yr un modd, bydd yna bwyntio bys at y cyfryngau digidol sy'n caniatáu rhannu negeseuon torfol i gyfeirio lleoliadau sy'n denu'r 'protestiadau' hyn, ac a all droi'n wenfflam mor syfrdanol o sydyn. Beth yw cyfraniad Elon Musk a J. D. Vance yn hyn oll? Mae'n debyg iawn y bydd ansefydlogrwydd




economaidd a diweithdra yn ffactorau perthnasol, a phrin fod diffyg moesoldeb o du gwleidyddion Ffasgaidd yn Rwsia, Israel ac America yn helpu.

Onid ffenomen ddynol yw ceisio mwy, y barusrwydd hunanol sydd am gasglu cyfoeth cynyddol ar draul y gwan a'r difreintiedig? Bydd eithafiaeth, cyfoeth a thlodi yn sicr o gynnal gwrthryfel. Onid egwyddor dda yw geiriau Iesu, pan gyfarwyddodd y sawl sydd â dwy gôt i estyn un i'r sawl sydd heb gôt, i fwydo'r newynog ac i garu gelynion?

Os yw cynulleidfaoedd ein heglwysi'n derbyn bod gweddïo am heddwch yn bwysig, yna, drwy amsugno graslonrwydd dwyfol i mewn i'n meddylfryd a'n hymarweddiad, mae angen i ni hyrwyddo trafodaeth sy'n rhannu agweddau trugarog yn ein cymunedau.

Onid yw'n bwysig i ni sgwrsio am ddylanwad sancteiddrwydd Duw wrth gyfarfod â phobl yn ein byw bob dydd? Dyw gweddïo ddim yn cadw ffrwd trugaredd oddi mewn i'r gymuned Gristnogol, ond dylem drafod hanfodion y ffydd â'r rhai sy'n byw yn ein hymyl, nad ydynt yn mynychu oedfa nac yn troi at y Beibl fel ffynhonnell ein ffordd ymlaen fel cenedl a dynoliaeth.

Cofiaf anerchiad llywydd Undeb Bedyddwyr Prydain yn dweud mai dyletswydd pob Cristion yw 'gossip the gospel'. Mynnwn fod Iesu yn ein mân siarad, a dyna un arf y gallwn ei ddefnyddio i herio'r agweddau dinistriol sydd i'w clywed yn ein cyfryngau torfol.

# Yr argyfwng Ebola

Mae straen newydd ac angheuol o Ebola ar led mewn cymunedau yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo. Mae Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo yn wynebu un o'r argyfyngau dyngarol mwyaf cymhleth yn y byd. Mae degawdau o wrthdaro arfog wedi chwalu systemau iechyd, wedi gorfodi miliynau o bobl i adael eu cartrefi, ac wedi ei gwneud hi'n anoddach i gymunedau amddiffyn eu hunain pan fydd clefydau'n taro. Mae achosion newydd o Ebola yn lledaenu yn y cyd-destun anodd hwn. Ym mis Ebrill 2026 cyhoeddwyd bod achosion newydd o Ebola ar led, a'r tro hwn, straen Bundibugyo o'r feirws sydd wedi taro. Mae'n lledaenu trwy daleithiau Ituri a Gogledd Kivu, rhanbarthau sydd eisoes dan bwysau enfawr oherwydd dadleoli a diffyg diogelwch.




### Pam mae'r achosion hyn yn wahanol?

Dydy Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo ddim wedi wynebu straen Bundibugyo o Ebola o'r blaen. Nid oes unrhyw frechlyn cymeradwy nac unrhyw driniaeth benodol ar gael ar hyn o bryd. Yr unig ffordd i arafu'r lledaeniad yw trwy atal y feirws – gweithredu'n gynnar, darparu gwybodaeth glir, a sicrhau bod cymunedau yn gweithio gyda'i gilydd i atal y gadwyn drosglwyddo. Dyna pam mae'r cyd-destun yn yr achos hwn yn un mor argyfyngus. Mae'r feirws yn lledaenu'n gynt oherwydd bod cymaint o'r boblogaeth yn symud, bod y gwersylloedd dadleoli yn orlawn, a cham wybodaeth yn rhemp.

> Mae'r achosion o Glefyd y Feirws Ebola yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo, a hynny am yr 17eg tro, ynghyd ag ymddangosiad y straen Bundibugyo yng ngogledd-ddwyrain talaith Ituri – sy'n cael effaith ledled rhanbarth y Llynnoedd Mawr a dinas Goma – wedi gwaethygu sefyllfa ddyngarol, gymdeithasol ac economaidd argyfyngus y boblogaeth hon, sydd wedi para dros ddau ddegawd.
>
> *Salome Ntububa, Arweinydd y Rhaglen a Phartneriaethau, Y Llynnoedd Mawr, Cymorth Cristnogol.*

### Y bobl sydd yng nghanol yr argyfwng hwn

Ar hyn o bryd, menywod yw tua 60% o'r rhai sy'n cael eu heffeithio, ac nid cyd-ddigwyddiad mo hynny. Mae menywod yn fwy tebygol o fod yn gofalu am berthnasau sâl ac am yr aelwyd – rolau sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o ddod i gysylltiad â'r feirws. Hefyd, mae'r achosion hyn yn taro cymunedau sydd eisoes yn byw trwy un o'r argyfyngau newyn mwyaf yn y byd – mae angen bwyd ar frys ar dros 27 miliwn o bobl yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo.

Mae gwrthdaro parhaus wedi dinistrio gwasanaethau gofal iechyd sydd eisoes dan bwysau oherwydd achosion o'r frech goch a cholera. Mewn llawer o gymunedau, mae glanweithdra gwael a diffyg mynediad at ddŵr glân yn sbarduno lledaeniad clefydau angheuol ac yn bygwth goroesiad teuluoedd. I deuluoedd sydd eisoes yn dioddef gwrthdaro, newyn a dadleoli, mae'r achosion hyn yn eu gwthio'n agosach at y dibyn.

### Beth mae Cymorth Cristnogol a'n partneriaid yn ei wneud?

Mae ein partneriaid eisoes yn gweithredu yn y cymunedau sy'n cael eu heffeithio. Mae gan Communauté Baptiste au Centre de l'Afrique (CBCA), Bureau Œcuménique d'Appui au Développement (BOAD) a'r Eglise Anglicane du Congo oll brofiad helaeth o ymateb i argyfyngau iechyd yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo, gan gynnwys yr achosion o Ebola yn 2019 a'r argyfwng Mpox yn 2025. Maent yn adnabod y cymunedau, y lleisiau dibynadwy a'r sianelu i atal lledaeniad y feirws.

Rydym hefyd yn cefnogi ymdrechion lleol i ymateb trwy gydweithredu â sefydliadau cenedlaethol a chymunedol, partneriaid datblygu rhyngwladol, ac awdurdodau lleol – pob un yn gweithio i gyflwyno negeseuon atal haint a hyrwyddo arferion iechyd diogel mewn cymunedau sy'n cael eu heffeithio. Mae ein profiad o ymateb i argyfyngau iechyd yn y gorffennol yn dangos bod arweinwyr ffydd yn gallu gwneud gwaith hanfodol wrth i gymunedau wrando ar eu cyngor ar sut i leihau'r risg o heintiau. Mae gweinidogion ac arweinwyr ffydd felly yn rhannu gwybodaeth ac wrthi'n herio negeseuon camarweiniol. Mae gweithwyr iechyd cymunedol yn cyrraedd eglwysi, ysgolion a marchnadoedd gyda gwybodaeth i gadw teuluoedd yn ddiogel.

### Apêl argyfwng Ebola

Rydym wedi lansio apêl i gefnogi mwy o deuluoedd sydd mewn angen. Gyda'ch cefnogaeth, bydd ein partneriaid yn medru:

- Cyrraedd 350,000 o bobl gyda gwybodaeth iechyd hanfodol
- Cefnogi gweithwyr iechyd cymunedol i ymweld ag eglwysi, ysgolion a marchnadoedd i rannu gwybodaeth am sut i atal y feirws
- Darparu pecynnau hylendid yn cynnwys sebon, bwcedi a thuniau dŵr ar gyfer golchi dwylo i 1,200 o deuluoedd (tua 6,000 o bobl)
- Sefydlu bron i 50 o fannau golchi dwylo cyhoeddus

https://www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/ebola-emergency-appeal
Amen

## Gweddïwch gyda ni

**Dduw cariadus, rwyt ti'n ein gweld ac yn ein adnabod.**
**Rwyt ti'n bresennol gyda ni yn ystod amser o ddioddef.**
**Gweddiwn dros bawb sy'n cael eu heffeithio gan ledaeniad Ebola.**
**Cysura y rhai sy'n sâl,**
**Cynnal y rhai sy'n galaru,**
**Gwarchod y rhai sy'n rhoi gofal.**
**Gweddiwn am iechyd a diogelwch ein partneriaid a staff meddygol wrth iddynt drin y rhai sydd wedi'u heffeithio.**
**Gweddiwn am gryfder i gymunedau a teuluoedd yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo a Uganda. Gweddiwn y bydd datrysiadau yn dod yn gyflym wrth i frechlynnau a thriniaethau gael eu datblygu.**
**Gweddiwn y bydd y byd yn uno i weithredu a rhoi cefnogaeth i'n cymdogion byd-eang.**
**Dduw cariadus, gofynnwn hyn yn enw Iesu.**
**Amen**

# Golygyddol

## Cwrdd gweddi

'Mi a wn trwy brofiad am gael fy amgylchu gan elynion, pan na feddwn ddim i'w wneuthur ond hyn yma, "Minnau a arferaf weddi," a bod hynny yn peri iddynt gilio a syrthio.' Ann Griffiths

Ddoe cefais lyfryn byr yn rhodd, am Ddiwygiad 1859. Fe'i hysgrifennwyd ym 1959 gan hen ffrind i'n teulu sef Dr Geraint Gruffydd. Rwyf yn gymharol gyfarwydd â hanes y diwygiad hwn ac wedi darllen yn helaeth amdano dros y blynyddoedd. Humphrey Jones a Dafydd Morgan, yn brif gymeriadau, a deithiodd trwy Gymru yn cyhoeddi'r Efengyl gan gael ymateb syfrdanol gan y werin bobl. Un o drysorau ein hanes Cristnogol yw llyfr J. J. Morgan yn adrodd hanesion am y diwygiad.

### Tynnu'r rhwyd

Un datblygiad newydd fu gyda'r diwygiad hwn oedd yr arfer o dynnu'r rhwyd ar ddiwedd y cyfarfodydd gan ofyn i'r edifeiriol ddod i'r tu blaen. Arfer a ddaeth, yn ôl y sôn, o'r Unol Daleithiau. Byddai'r hen ymneilltuwyr wedi gwgu ar yr arfer hwn o roi pwysau emosiynol ar bobl i gredu yn Iesu fel Gwaredwr. Ond wrth ddarllen y pamffled yr hyn a ddeuai i'r amlwg oedd pa mor bwysig oedd gweddi yn yr adnewyddiad. Cynhelid peth mwtradd o gyrddau gweddi ar hyd a lled Cymru a llawer ohonynt yn rhai cynhyrfus. Mewn rhai ardaloedd roedd pobl ifanc yn cynnal cyrddau gweddi am oriau lawer yn erfyn am fendith yr Ysbryd Glân.

### Dyrchafu cri


Mae hyn yn codi cwestiynau, yn fy meddwl, am y pwyslais a roddir ar weddi yn ein heglwysi heddiw. Faint o'n heglwysi sydd erbyn hyn yn cynnal cwrdd gweddi yn gyson yn ystod yr wythnos? Faint o awydd sydd ynom i gynnal cyfarfodydd o'r fath? Pam mai un o'r cyfarfodydd cyntaf sydd wedi diflannu o'n heglwysi yw'r cyfarfod hanfodol hwn? Yn ddiamheuaeth mae'r Beibl – gair Duw – yn rhoi pwyslais aruthrol ar gyd-weddïo yn gyson gyda'n gilydd. Mae llawer o weddïau wedi eu cofnodi yn yr Hen Destament heb sôn am lyfr y Salmau yn ei gyfanrwydd. Dyma rai cyfeiriadau pellach am weddi, ond mae llawer mwy. Dysgodd Iesu ei ddisgyblion i weddïo yn Mathew 6. Yn llyfr yr Actau cofnodir bod yr eglwys fore o'r dyddiau cyntaf yn gweddïo gyda'i gilydd. (Actau 2:42) Rhydd Paul bwyslais ar bwysigrwydd gweddi tuag at ffyniant ysbrydol yn Effesiaid 6 ac y mae yn ei nodi fel un o arfau Duw. 'A beth bynnag ddaw, gweddïwch bob amser fel mae'r Ysbryd yn arwain. Cadwch yn effro, a dal ati i weddïo'n daer dros bobl Dduw i gyd.' (Effesiaid 6:18)


### Adnewyddiad


Onid rhan o adferiad ein heglwysi fyddai cyd-weddïo a chychwyn cyrddau gweddi cyson? Corff Crist yw eglwys ac y mae iddi anghenion pur wahanol i glybiau diwylliannol a gweithgareddau cymdeithasol. Er mwyn i unrhyw eglwys fyw yn ysbrydol iach rhaid iddi weddïo ar y cyd. Oherwydd mewn gweddi yn arbennig rydym yn profi presenoldeb yr Arglwydd trwy'r Ysbryd, yn ceisio ei ewyllys a'i feddwl, yn ildio ein calonnau iddo gan sylweddoli ein bod yn llwyr ddibynnol arno, gorff ac enaid.

Ar ddiwedd hyn o olygyddol y cyfan allaf ei wneud yw eich annog i gynnal cyrddau gweddi yn eich cynulleidfa ac efallai, efallai, mai yma y mae tarddle'r adnewyddiad ysbrydol rydym ddirfawr ei angen yng Nghymru.

**Alun Tudur**



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Natur a ni

## Syr David Attenborough



Dylem gydnabod yn wir ddiolchgar ein dyled anfesuradwy i David Attenborough gan ei fod wedi datblygu trwy'r cyfryngau i fod yn gydwybod i'r blaned – rhoddodd lais i fyd natur. Dyma chydig o'i hanes ac yntau yn dathlu ei ben blwydd yn gant oed.

### Ei fagwraeth

Ganwyd David ar 8 Mai, 1926 yn Isleworth, Llundain. Fe oedd y mab canol i Mary a Frederick Attenborough. Penodwyd ei dad yn Bennaeth Coleg Prifysgol Caerlŷr (Leicester) yn 1932 pan oedd David yn bum mlwydd oed a Richard ei frawd hynaf yn wyth mlwydd oed a John yn bedair. Addysgwyd y tri brawd yn ysgol ramadeg Wyggeston oedd union ddrws nesa i'w cartref.

Mae'n ymddangos iddynt fwynhau magwraeth ddedwydd ar gampws y Brifysgol. Mae'r meibion wedi disgrifio eu tad yn 'formidable' a 'the Governor'. Roedd Mary, y fam yn un o sefydlwyr y Cyngor ar gyfer Parau Priod (Marriage Guidance Council). Mae'n ymddangos nad oedd David na'i frodyr wedi cael magwraeth Gristnogol o ran mynychu capel ac eglwys.

Arferai David seiclo yn aml yn y wlad o gwmpas Caerlŷr ac roedd yn ymddiddori ym myd natur yn y cyfnod cynnar hwn yn y 30au. Clywodd fod pennaeth yr adran sŵoleg yn y brifysgol yn gwneud cyfres o arbrofion fel rhan o'i hymchwil ar fadfallod dŵr (newts). Roedd angen nifer fawr ohonynt fel rhan o'i hymchwil. Fe holodd David faint oedd hi'n fodlon talu am ei gymorth, gan fod angen 30 ohonynt bob wythnos, dros gyfnod o fisoedd. Llwyddodd David i gael 3d (o'r hen arian) am bob madfall. Ni wyddai'r ymchwilydd bod David yn eu dal nhw yn y pwll dŵr oedd ond pum llath o'i labordy.

### Mabwysiadu

Ym 1939 hysbyswyd y tri brawd gan eu rhieni eu bod am agor drws eu cartref i ddwy chwaer oedd yn ceisio dianc o'r Almaen Natsïaidd. Honnir bod Mary, y fam, wedi dweud wrth y bechgyn, 'Rydym yn caru'r tri ohonoch yn angerddol, ond bydd gofyn i ni ddangos mwy o gariad i'r ddwy chwaer hyn, oherwydd byddant yn dod atom heb eu rhieni. Mae'n dibynnu'n llwyr arnoch chi, fy mechgyn annwyl, os bydd modd iddynt aros yma gyda ni fel teulu.'


Roedd Helga Bejach yn 12 mlwydd oed ac Irene yn 13 mlwydd oed ac yn rhan o'r cynllun Kindertransport a lwyddodd i achub tua 10,000 o blant o grafangau'r Natsïaid. Roedd mwyafrif y plant o dras Iddewig. Lladdwyd tad y ddwy chwaer a oedd yn feddyg yn Auschwitz yn 1944. Roedd y fam wedi marw o'r diciâu (tuberculosis) rhai blynyddoedd ynghynt. Treuliodd y merched saith mlynedd gyda'r teulu yng Nghaerlŷr cyn symud i fyw gyda'u hewythr yn Efrog Newydd. Bu un farw yn 1994 a'i chwaer yn 2005.

### Coleg Clare, Caergrawnt

Yn 19 mlwydd oed enillodd David ysgoloriaeth i astudio daeareg a sŵoleg yng Ngholeg Clare, Caergrawnt yn 1945. Fe fwynhaodd ei astudiaethau yno a honnir bod ei gyrsiau mewn daeareg a phaleontoleg wedi bod yn allweddol wrth lunio ei ddealltwriaeth a'i werthfawrogiad o fyd natur. Meddai, 'Pan ddeuthum yn fyfyriwr i Gaergrawnt deuthum yn ymwybodol o'r amrywiaeth sydd yn y byd … agorwyd fy llygaid'. Graddiodd mewn Gwyddorau Naturiol (Natural Sciences) ac yn 2016, enwyd 'The David Attenborough Building' sydd yn hwb ar gyfer cadwraeth fioamrywiol yng nghanol Caergrawnt er anrhydedd iddo.

**Gwilym Wyn**

(Bydd ail ran yr erthygl hon yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.)



**CRISTNOGAETH 21**
**Trafodaeth ar Zoom**
Mehefin 29, 18.30 – 19.30
- Pwy ydyn ni?
- Beth ydyn ni'n ei wneud?
- Beth yw ein cynlluniau?

**Dewch i ddysgu mwy am C21 ac ymuno yn y sgwrs**

I gael y ddolen Zoom, anfonwch neges at cristnogaeth21@gmailcom

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*